# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 20 Medi 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

# 88(v3)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**

1. David Rees (Aberafan): Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael ynghylch effaith y fenter ar y cyd rhwng Tata Steel a ThyssenKrupp ar y sector dur yng Nghymru?

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon**

2. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu'r gwersi a ddysgwyd yn sgil y sgandal Kris Wade ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg?

3. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am benderfyniad y Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan i beidio â gwneud Avastin, cyffur canser a allai ymestyn bywydau, ar gael fel mater o drefn yn y GIG yng Nghymru?

**Gofyn i Brif Weinidog Cymru**

4. Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr): Yn sgil digwyddiadau yng Nghatalonia, pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU fel rhan o drafodaethau Brexit yr UE a'r DU, ynghylch hawliau is-wladwriaethol llywodraethau i weithredu'n annibynnol heb fod llywodraeth y wladwriaeth yn cyfyngu arnynt?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar recriwtio meddygol

(60 munud)

**NDM6502** Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar yr ymchwiliad i recriwtio meddygol, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Mehefin 2017.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Medi 2017.

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM6505** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi Papur Gwyn Llywodraeth Cymru, 'Gwasanaethau sy'n addas i'r dyfodol', sy'n ceisio diddymu cynghorau iechyd cymuned yng Nghymru.

2. Yn cydnabod y rôl bwysig y mae cynghorau iechyd cymuned wedi'i chwarae o ran sicrhau atebolrwydd gwasanaethau cyhoeddus annibynnol a darparu llais cryf i gleifion yng Nghymru.

3. Yn credu y bydd cynigion y Papur Gwyn yn gwanhau lleisiau cleifion a chymunedau a lleihau lefel y gwaith craffu ar Lywodraeth Cymru a byrddau iechyd.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) ymestyn y cyfnod ymgynghori ar y Papur Gwyn, ar ôl methu ag ymgysylltu'n briodol â chynghorau iechyd cymuned, cleifion a'r cyhoedd yng Nghymru; a

b) gweithio mewn ffordd fwy adeiladol gyda'r cynghorau iechyd cymuned ar gynigion yn y dyfodol ar gyfer corff newydd i roi llais i'r bobl.

Dogfen Ymgynghori Papur Gwyn Llywodraeth Cymru - 'Gwasanaethau sy'n addas i'r dyfodol'

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu popeth ar ôl 'Gwasanaethau sy'n Addas i'r Dyfodol' ac ychwanegu 'sy'n amlinellu cyfres o gynigion i gryfhau ansawdd a llywodraethiant mewn gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru'.

**Gwelliant 2.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod Pwyllgor Iechyd a Chwaraeon Llywodraeth yr Alban yn ystyried nad oedd cyngor iechyd cymuned cenedlaethol sengl yn yr Alban yn ddigon annibynnol ar y llywodraeth.

## 7 Dadl Plaid Cymru

(60 munud)

**NDM6506** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wrthwynebu adeiladu uwch garchar ym Mhort Talbot.

2. Yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i:

a) beidio â gwerthu neu ryddhau tir Llywodraeth Cymru at ddibenion adeiladu'r uwch garchar arfaethedig;

b) datblygu'r economi leol drwy gefnogi busnesau yn y parc diwydiannol; ac

c) gwneud sylwadau i Lywodraeth y DU yn cefnogi'r dewisiadau amgen i garchardai mawr.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** [Paul Davies (Preseli Sir Benfro)]

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn croesawu'r buddsoddiad o £1.3 biliwn gan Lywodraeth y DU i foderneiddio a diweddaru'r ystâd carchardai ar draws Cymru a Lloegr, gan greu cannoedd o leoedd modern i garcharorion a disodli'r hen sefydliadau gorlawn gan adeiladau newydd, addas i'r diben.

2. Yn cydnabod rôl Llywodraeth Cymru yn y broses o hyrwyddo a chlustnodi'r safle arfaethedig ym Mhort Talbot ar gyfer uwch garchar newydd yn ne Cymru.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal ymgynghoriad llawn a thrylwyr gyda thrigolion a busnesau lleol ynghylch effaith debygol datblygu carchar newydd ym Mhort Talbot.

4. Yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gynnal archwiliad llawn o'r safleoedd amgen, gan gyhoeddi'r rhestr arfaethedig.

## 8 Cyfnod Pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6501** Huw Irranca-Davies (Ogwr)

Y ddarpariaeth o ofal sylfaenol yn ardal Llanharan

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 26 Medi 2017